Eisteddfod Talaith a Chadair Powys

Bro Ddyfi

2026

Rhaglen y Dydd

Y Tabernacl a'r Plas

Machynlleth

Gorffennaf 3-4, 2026

Pris: £1

Dyluniwyd Logo'r Eisteddfod gan Gwenni Edwards-Dixon Ysgol Glantwymyn



Gweler y rhestr testunau am fanylion llawn amodau cyffredinol a chystadlu'r eisteddfod hon. Mae copi ar gael ar wefan eisteddfod Powys.

Eisteddfod Powys Bro Ddyfi 2026

CROESO

A dyma ni yn hedd yr Eisteddfod!

Mae tua dwy flynedd wedi mynd heibio ers i rai o drigolion Dyffryn Dyfi ddechrau dod ynghyd er mwyn estyn croeso i eisteddfod deithiol hynaf Cymru – ar ôl seibiant o 14 mlynedd ers iddi fod yn yr ardal. Etholwyd swyddogion y Pwyllgor Gwaith a'r Is-bwyllgorau yn fuan wedi hynny ac mae'n rhaid talu teyrnged i aelodau'r holl bwyllgorau am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd ar hyd yr amser.

Gobeithio y bydd pawb o bell ac agos yn mwynhau ffrwyth llafur yr holl waith paratoi a fu dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn dilyn Gŵyl Gyhoeddi lwyddiannus ddiwedd Mehefin 2025 mae'r ardal wedi edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu'r eisteddfod. Mae Dyffryn Dyfi yn gadarnle i ddiwylliant Cymraeg ac mae'r traddodiad Eisteddfodol yn ffynnu yn y dyffryn. Roedd y cyngerdd 'Doniau Dyfi' a drefnwyd fis Chwefror eleni yn dyst i rai o'r talentau lleol sydd gennym gyda'r Tabernacl dan ei sang.

Mae'r traddodiad o ymryson barddonol sydd ynghlwm ag Eisteddfod Powys yn ymestyn yn ôl i'r 18fed ganrif ac felly roedd hi'n braf gweld 5 o dimau yn cystadlu yn yr ymryson a drefnwyd yn ddiweddar. Roedd nifer o'r beirdd hynny yn rhai ifanc/newydd, felly mae'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dyffryn yn gartref i grefftwyr o'r radd flaenaf hefyd, sydd wedi derbyn sylw cenedlaethol a rhyngwladol hyd yn oed. Braf oedd rhoi cyfle i rai o'r crefftwyr hynny i lunio prif wobrau yr eisteddfod hon. Mae eu cynnyrch yn wledd i'r llygad ac rydym yn ddiolchgar iawn i noddwyr y gwobrau hynny yn ogystal.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at lwyfannu'r eisteddfod hon, boed yn swyddogion, sefydliadau, cystadleuwyr, noddwyr neu'n gefnogwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cymorth.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r ardal yn 2027, ac felly dwi'n siŵr bydd y bwrlwm diwylliannol yn parhau. Pob lwc i bawb sydd ynghlwm â threfniadau'r Eisteddfod honno ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb i Ddyffryn Dyfi unwaith eto ymhen rhyw flwyddyn.

Yn y cyfamser, mae nifer dda o gofrestriadau wedi llifo i mewn, felly, cymerwch eich sedd, eisteddwch yn ôl a mwynhewch Eisteddfod Powys Bro Ddyfi 2026!

Alun Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Cywydd Croeso Eisteddfod Talaith a Chymrodoriaeth Powys, Bro Ddyfi 2026

Dewch â'ch gwên yng Ngorffennaf
Dewch i groeso bro mor braf,
O! Dewch yn daer, dewch yn don
I'n gŵyl i godi'r galon;
A llifwch dros ein llwyfan
Gymry gwâr, o bedwar ban.

Dewch! Dewch! I hen dre Glyndŵr
I aros, dewch *chi'n* arwr!
Tyrrwch i godi twrw
Ag arf llên, ac ar fy llw
Oedi wna'r traffig wedyn
A mynnu gair wrth Maen Gwyn.

"Sounds great! What's happ'ning matey?"
"Steddfod's hit town, showdown see!"
Cawn o'r Plas sŵn canu'r plant,
Olyniaeth a dilyniant,
Drwy'n sain, saif yr hen dre'n syn,
Troi'r hud ar Bentrerhedyn.

Dewch â'ch gwên yng Ngorffennaf
Dewch i groeso, bro mor braf;
A dyfal fel llif Dyfi
Yw ei hoen a'i hawen hi,
Hen Bowys sy'n llawn bywyd,
Y mae hon yma o hyd.

Pryderi Jones (Arwyddfardd)

Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Talaith a Chadair Powys
Bro Ddyfi 2026

Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Bro Ddyfi 2026
SWYDDOGION AC AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

Swyddogion:

Cadeirydd: Alun Jones
Is-gadeirydd: Hedd Pugh
Trysorydd: Huw Jones
Ysgrifenydd Cyffredinol: Grug Muse
Cyfathrebu: Non Bleddyn-Jones

Swyddogion Is- Bwyllgorau: C= Cadeirydd Y= Ysgrifennydd

Cerdd:
C Alwyn Evans
Y Heledd Besent

Llên a Llefaru:
C Pryderi Jones
Y Nia Jones

Cerdd Dant a Chanu Gwerin:
C Geunor Roberts
Y Menna Blake

Dysgwyr:
C Elin Williams
Y Rhiain Bebb

Dawnsio:
C Eleri Jones
Y Gwenan Phillips

Celf a Chrefft:
C Islwyn Phillips
Y Elinor Wigley

Cyllid:
C Huw Jones

Yr Orsedd:
C Hedd Bleddyn
Is-G Hedd Pugh
Y Rhian Davies

Llety a Chroeso:
C Elinor Evans
Y Jane Lloyd

Maes a Threfn
C Ifor Roberts
Y Eilir Jones

Llywyddion, Arweinyddion, Beirniaid, Cyfeilyddion a Thelynorion yr Ŵyl

Llywyddion yr Ŵyl

Dydd Gwener	Cyril Jones, Cemaes
Dydd Sadwrn	Olwen Rhys, Pwllheli

Arweinyddion

Heledd Besent
Alun Jones
Aled Wyn Davies
Lliwen Glwys
Meinir Wigley
Dei Tomos
Gwenan Phillips

Beirniaid

Cerdd:
Lleisiol: Sioned Webb, Trystan Lewis, Huw Ynyr, Iwan Parry,
***Offerynnol a Chyfansoddi*:** Sioned Webb

Llefaru:
Anni Llŷn, Hanna Llŷn

Cerdd Dant a Chanu Gwerin:
Iwan Morgan, Arfon Williams

Dawnsio:
Gwerin / Clocsio: Bryn Davies
Creadigol/Disgo: Elin Angharad a Bethan Smith Davies

Llenyddiaeth a Barddoniaeth:
Barddoniaeth: Carwyn Eckley
Rhyddiaith: Mari George

Adran y Dysgwyr:
Tlws y Dysgwr*:* Sue Hyland
Rhyddiaith Agored*:* Felicity Roberts
Mynediad a Sylfaen: Jaci Taylor
Llwyfan
Llefaru (agored): Haf ap Robert

Celf a Chrefft:
Gwaith 2D a 3D: Jane Barraclough
***Ffotograffiaeth*:** Jane Barraclough
Gosod Blodau: Eluned Besent
***Coginio*:** Margret Jones
Gwaith Llaw: Jane Barraclough

Cyfeilyddion
Huw Davies, Eirian Owen, Tudur Jones.

Telynorion
Alecs Peate, Llio James

CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS

Sefydlwyd y Gymrodoriaeth yn 1913 dan lywyddiaeth Penfro 'yn cael ei gynorthwyo gan Cadfan a lliaws beirdd, llenorion a cherddorion Powys' gyda'r diben o sicrhau cydweithrediad cyffredinol yn y Dalaith i gynnal Eisteddfod...ac i ddyrchafu safon yr eisteddfodau yn ei thestunau a'i chynhyrchion.'

Heddiw mae aelodau'r Gymrodoriaeth yr un mor benderfynol o sicrhau dyfodol Eisteddfod Powys ac yn mwynhau gweithio gyda phwyllgorau gwaith yr ardaloedd gwahanol i gynnal Eisteddfodau llwyddiannus sy'n rhoi cyfleoedd arbennig i blant, pobl ifanc a pherfformwyr Cymru.

EISTEDDFODAU O FEWN Y DALAITH: Mae'r Gymrodoriaeth yn rhoi cymorth ariannol i eisteddfodau annibynnol a gynhelir yn rheolaidd o fewn y Dalaith. Gweler wefan Eisteddfod Powys am ffurflen.

EISTEDDFODAU'R DYFODOL: Ni fydd Eisteddfod yn 2027. Os oes ardal ag awydd gwahodd Eisteddfod 2028 i'r ardal, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda. Mae swyddogion y Gymrodoriaeth yn barod i gefnogi pwyllgor gyda'r gwaith o gynnal Eisteddfod.

AELODAU: Mae aelodaeth y Gymrodoriaeth yn agored i bob Eisteddfodwr a charedigion llên, awen a cherdd ac nid yw'r tanysgrifiad ond £20 am oes. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb a gâr ein diwylliant i ymaelodi. Anfonwch at y Cofiadur:

Sioned Hughes: eisteddfodpowys@outlook.com

Rhif Ffôn: 07971520122

Sioned Elin (Cofiadur)

CYMRODORIAETH EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

Swyddogion 2026/27

Llywydd: Hedd Bleddyn

Cadeirydd: John Price

Is-Gadeirydd: David Ellis

Trysorydd: Bryn Peryddon Davies

Y Derwydd Gweinyddol:	Beryl o Gefnllys
Dirprwy Dderwydd Gweinyddol:	Arwyn Groe
Cyn-Dderwyddon Gweinyddol:	Hedd Bleddyn Marlis Ogwen Huw Ceiriog Tom Erfyl
Cofiadur:	Sioned Elin
Arwyddfardd:	Pryderi
Dirprwy Arwyddfardd:	Lowri Hywel
Ceidwad y Cledd:	Glandon
Dirprwy Geidwad y Cledd:	Gwernfab
Telynores:	Telynores Powys
Dirprwy Delynores:	Cadi Glwys Telynores Sycharth
Cornydd:	Philip ap Islwyn
Dirprwy Gornydd:	Helen o Faldwyn
Meistresi'r Gwisgoedd:	Marian o Fawddwy Eirian Mai Marged Feddyg Nia Nefyl
Banerwr:	Dafydd Henlle
Dirprwy Fanerwr:	Rhiwarth
Arolygwr Llwyfan a Seremonïau:	Rhian Angharad Ferch Dai

Gorymdaith yr Orsedd

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd, 9 : 30

Y Plas, Machynlleth

TREFN YR ORYMDAITH

1. Swyddogion Pwyllgorau'r Eisteddfod
2. Plant Ysgolion y Cylch
3. Cynrychiolwyr y Mudiadau
4. Aelod Seneddol
5. Aelodau'r Cynghorau Sir
6. Cynghorau Bro y Cylch
7. Y Cyhoedd
8. Baner yr Orsedd
9. Y Corn Gwlad
10. Cyflwynydd y Corn Hirlas a'i Macwyaid
11. Parti'r Ddawns Flodau
12. Cyflwynydd yr Aberthged a'i Gweinyddesau
13. Yr Wyth Gwladwr
14. Aelodau Gorsedd Powys
    i) Gwisg Werdd
    ii) Gwisg Las
    iii) Gwisg Wen
    iv) Gwisg Aur
15. Meistresi'r Gwisgoedd
16. Cleddyf yr Orsedd
17. Y Derwydd Gweinyddol a'r Cofiadur
18. Dirpwy Arwyddfardd

Y GWEITHREDIADAU

EMYN : Cofia'n Gwlad Benllywydd Tirion (Tôn: Groeswen)

Arweinydd: Alwyn Llefenni

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
dy gyfiawnder fyddo'i grym:
cadw hi rhag llid gelynion,
rhag ei beiau'n fwy na dim:
rhag bob brad, nefol Dad,
taena d'adain dros ein gwlad.

1. Y CORN GWLAD

Pan fydd y cyrn yn canu i'ch cyfeiriad wnewch chi godi, os gwelwch yn dda.

2. AIL AGOR YR ORSEDD : Y Derwydd Gweinyddol : Beryl o Gefnllys

Y Derwydd Gweinyddol : Y gwir yn erbyn y Byd, a oes Heddwch?

Pawb : Heddwch!

Y Derwydd Gweinyddol : Calon wrth Galon, a oes heddwch?

Pawb : Heddwch!

Y Derwydd Gweinyddol : Gwaedd uwch adwaedd, A oes Heddwch?

Pawb : Heddwch!

Y Derwydd Gweinyddol : Gweinier y cledd. Cyhoeddaf fod Gorsedd Talaith a Chadair Powys yn awr ar agor.

3. GWEDDI'R ORSEDD: Alun Cefne

4. CYFARCHIAD : Y Derwydd Gweinyddol Beryl o Gefnllys

5. EMYN YR ORSEDD: Wyth Gwladwr o Fro Ddyfi.

(Fe'i cenir gan Wyth Gwladwr, dau yn sefyll ar bob pwynt i ganu eu priod bennill a'r wyth yn uno i ganu'r Pennill olaf)

Hyfforddwyd gan Alwyn Llefenni

Yn Cyfeilio : Telynores Powys a Cadi Glwys – Telynores Sycharth



Y DWYRAIN

Rhydian Meilir Pughe a Huw Emyr

Doniau'r Iôr o'r Dwyrain Fawr,
Fel y gwlith o groth y wawr,
Llifant atom-chwyth o hyd
Chwaon Eden ar y byd.

Y GORLLEWIN

Ilan Jones a Richard Rees

Dawn ein Hiôr i'r tadau gynt,
I'r Gorllewin gyda'r gwynt.
A'u dilynodd – deil o hyd
I'n diddanu gylch y byd.

Y GOGLEDD

Dyfan Jones a Meilyr Jones

Dawn ein Hiôr hyd atom ddaw,
O Ystlysau'r Gogledd draw,
Yn nhawelwch dunos syn,
Yn ysblander eira gwyn.

Y DE

Bedwyr Fychan ac Alwyn Evans

Doniau'r Iôr o'r Deau deg,
Draethir gan flodinos chweg,
Tra mae'r falmaidd dyner chwa,
Fyth yn sibrwd, "Duw sy'n dda".

Yr wyth yn uno ger y Maen Llog

Treiddio hyd begynnau'r byd,
Dilyn haul o gylch o hyd,
Byddo moliant Duw y nef
Arglwydd natur – molwn Ef.

Pawb i ymuno i ail-ganu'r pennill olaf wedi i'r Wyth Gwladwr orffen.

6. Y DDAWNS FLODAU

Plant ysgolion ardal Y Blewyn Glas

Hyfforddwyd gan Eleri Jones a Lliwen Glwys

7. CYFLWYNO'R CORN HIRLAS : Lowri Evans

Macwyaid: Efan Hughes (Ysgol Dinas Mawddwy) ac Ioan Jones (Ysgol Llanbrynmair)

Wedi agosau at y Maen Llog yn araf a'r Delyn yn seinio cyflwyna'r Corn i'r Derwydd Gweinyddol gan ei hannerch:

"Hybarch Dderwydd, yn enw Aelwydydd Bro Ddyfi, gwahoddwn di i yfed o wîn ein croeso i Orsedd ac Eisteddfod Talaith Powys".

Wedi yfed o'r Corn Hirlas, dychwel y Derwydd Gweinyddol ef i'r Cyflwynydd a dywed:

"Diolch fonheddig wraig. Rhad y Nef ar gartrefi Bro Ddyfi a llwyddiant i'ch Eisteddfod".

8. CYFLWYNO'R ABERTHGED: Manon Wyn

Gweinyddesau: Lowri Jones (Ysgol Bro Hyddgen) a Megan Morgans (Ysgol Bro Idris)

Wedi agosau at y Maen Llog yn araf a'r Delyn yn seinio cyflwyna'r Aberthged i'r Derwydd Gweinyddol gan ei hannerch:

"Hybarch Dderwydd, yn enw holl ieuenctid Bro Ddyfi dymunwn arnat dderbyn yr Aberthged hon o ŷd a blodau'r maes".

Wrth dderbyn yr Aberthged etyb y Derwydd Gweinyddol:

"Yr Arglwydd sydd yn coroni y flwyddyn a'i ddaioni ac yn rhoddi i bawb o'i greaduriaid eu bwyd yn ei bryd. Ef hefyd sydd yn bendithio pob gwir ddiffuant wasanaeth ei blant. Diolch a Rhad y Nef arnat, ac ar holl blant Bro Ddyfi".

9. CROESO BRO DDYFI : Alun Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith)

10. CYFARCHIAD BARDDOL : Hedd Bleddyn

11. Y CYWYDD CROESO : Heledd Besent

12. URDDO AELODAU NEWYDD : Y Cofiadur

13. CAU YR ORSEDD

Y Derwydd Gweinyddol : Y gwir yn erbyn y Byd, a oes Heddwch?

Pawb : Heddwch!

Y Derwydd Gweinyddol : Calon wrth Galon, a oes heddwch?

Pawb : Heddwch!

Y Derwydd Gweinyddol : Gwaedd uwch adwaedd, A oes Heddwch?

Pawb : Heddwch!

Y Derwydd Gweinyddol : Gweinier y cledd. Cyhoeddaf fod Gorsedd Talaith a Chadair Powys ar gau.

14. "HEN WLAD FY NHADAU"

Tlws yr Ifanc a Thlws y Dysgwr

Gwneuthurwraig: Elin Angharad

Y tlysau wedi'u creu drwy gyfuno deunyddiau gwahanol sef derw lleol o Aberystwyth, a lledr Eidalaidd.

Noddwyd Tlws yr Ifanc gan Huw ac Eirian Jones, Henllys.

Noddwyd Tlws y Dysgwr gan Rhiain Bebb a Howard Potter.

Cyfarfod Cyntaf yr Eisteddfod

Dydd Gwener y 3ydd o Orffennaf – Y Tabernacl
I ddechrau'n brydlon am 13.00 o'r gloch

1. **(4) Deuawd Bl.6 ac iau**: Y Darlun – Davey Davies (Caneuon Ffydd)
   Beirniad: Sioned Webb
   Cyfeilydd: Tudur Jones
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

2. **(1) Unawd Bl.2 ac iau:** Fi 'Di'r Deinosor – Robat Arwyn
   Beirniad: Huw Ynyr
   Cyfeilydd: Huw Davies
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.(*Y gwobrau'n rhoddedig gan Ieuan a Mair Jones, Maesnewydd, Aberhosan)*

3. **(43) Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4:** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Arfon Williams
   Telynor: Llio James
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

4. **(33) Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 – '**Dwi'm isio adrodd na llefaru' gan Myrddin ap Dafydd
   Beirniad: Anni Llŷn
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

5. **(24) Unawd Piano Bl.6 ac iau.** Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
   Beirniad: Sioned Webb
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

6. **(2) Unawd Bl.3 a 4:** Eliffant (Unrhyw 3 phennill) – J. Eirian Jones
   Beirniad: Huw Ynyr
   Cyfeilydd: Huw Davies
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00. .(*Y gwobrau'n rhoddedig gan Ieuan a Mair Jones, Maesnewydd, Aberhosan)*

7. **(51) Unawd Alaw Werin Oed Cynradd:** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Arfon Williams
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

8. **(31) Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau –** Cadw mi gei gan Tudur Dylan
   Beirniad: Anni Llŷn
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00. (*Y gwobrau'n rhoddedig gan Ieuan a Mair Jones, Maesnewydd, Aberhosan)*

9. **(44) Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 5 - 6:** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Iwan Morgan
   Telynor: Llio James
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

10. **(5) Parti Unsain Bl.6 ac iau** (hyd at 12 mewn nifer): Unrhyw gân yn addas ar gyfer yr haf
    Beirniad: Trystan Lewis
    Gwobrau: 1af - £40.00, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00.

11. **(32) Llefaru Unigol Bl. 3 a 4** – Mathemateg Mam gan Mererid Hopwood
    Beirniad: Anni Llŷn
    Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00. (*Y gwobrau'n rhoddedig gan Ieuan a Mair Jones, Maesnewydd, Aberhosan)*

12. **(42) Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 2 ac iau:** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Iwan Morgan
    Telynor: Alecs Peate
    Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

13. **(3) Unawd Bl.5 a 6:** Y Pyped - J.Eirian Jones (Cynghanedd Cariad)
    Beirniad: Huw Ynyr
    Cyfeilydd: Huw Davies
    Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

14. **(45) Parti Cerdd Dant Oed Cynradd:** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Iwan Morgan
    Telynor: Alecs Peate
    Gwobrau: 1af - £40.00 a Chwpan Coffa Ted Richards, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00

15. **(34) Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau :** Darllen y map yn iawn
    Beirniad: Anni Llŷn
    Gwobrau: 1af - £40.00 (*Rhodd gan Beryl Vaughan*), 2il - £30.00, 3ydd - £20.00

16. **(6) Côr Bl.6 ac iau** (dros 12 mewn nifer):Hunan-ddewisiad deulais
    Beirniad: Trystan Lewis
    Gwobrau: 1af - £50.00 *(Rhoddedig gan Hedd a Siân Pugh),* 2il - £40.00, 3ydd - £30.00

Ail Gyfarfod yr Eisteddfod

Nos Wener y 3ydd o Orffennaf – Y Tabernacl
I ddechrau'n brydlon am 6 o'r gloch

1. **(50) Côr neu Barti Cerdd Dant Agored:** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Iwan Morgan ac Arfon Williams
   Telynor: Llio James ac Alecs Peate
   Gwobrau: 1af - £100.00, 2il - £50.00, 3ydd - £30.00.

Seremoni'r Coroni

Cynhelir y seremoni am 7 o'r gloch
Cyflwynir y goron eleni am gasgliad o ddarnau rhyddiaith ar y thema 'Gwawrio'
Gwnaed y goron gan Mari Eluned, a noddwyd hi gan **NFU Cymru Sir Drefaldwyn.**
Cyflwynir gwobr o £150 yn rhodd gan Edwin ac Esme Hughes, Pennant, Llanbrynmair
Beirniad y gystadleuaeth yw Mari George

Y Ddefod:
Cenir Gweddi'r Orsedd gan Meilir Wyn
Cenir Cân y Coroni gan Alwyn Llefenni
Cyfarchion Barddol: Karina Wyn a Tegwyn Braich Llwyd
Cyrchir y Llenor i'r llwyfan gan Awela Cwm Cerhynt a Menna o'r Cwm.

2. **(25) Unawd Offerynnol (ac eithrio piano) Bl.6 ac iau**
   Beirniad: Huw Ynyr
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00.

Pabell Lên

Cynhelir pabell lên i drafod y cystadlaethau rhyddiaith yn syth ar ôl y ddefod yn stafell werdd y tabernacl.

3. **(7) Unawd Bl.7, 8 a 9** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Sioned Webb
   Cyfeilydd: Huw Davies
   Gwobrau: 1af - £15.00, 2il - £12.00, 3ydd - £10.00. *(Rhodd Heledd Besent)*

4. **(46) Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Iwan Morgan
   Telynor: Llio James
   Gwobrau: 1af - £15.00, 2il - £12.00, 3ydd - £10.00.

5. **(26) Unawd Offerynnol oed Uwchradd**
   Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud i'w pherfformio
   Beirniad: Trystan Lewis
   Gwobrau: 1af - £25.00, 2il - £20.00, 3ydd - £10.00.

6. **(8) Unawd Bl.10 a dan 19 oed** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Trystan Lewis
   Cyfeilydd: Tudur Jones
   Gwobrau: 1af - £25.00, 2il - £20.00, 3ydd - £10.00.

Cyflwyno'r Tlws Ieuenctid

Yn rhoddedig am gasgliad o 3 darn o waith gwreiddiol.
Gwobr - Tlws Ieuenctid a £75 *(y wobr a'r rhodd ariannol yn rhoddedig gan Huw ac Eirian Jones)*

7. **(28) Ensemble Offerynnol oed cynradd** (rhwng 2 a 6 mewn nifer) Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
   Beirniad: Huw Ynyr
   Gwobrau: 1af - £30.00 a Thlws Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn, 2il - £20.00, 3ydd - £10.00.

8. **(35) Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Anni Llŷn
   Gwobrau: 1af - £15.00, 2il - £12.00, 3ydd - £10.00.

Anerchiad Llywydd Dydd Gwener

Cyril Jones, Cemaes

9. **(52) Unawd Alaw Werin Bl.7 a dan 19 oed** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Arfon Williams
   Gwobrau: 1af - £20.00, 2il - £15.00, 3ydd - £10.00.

10. **(9) Deuawd oed Uwchradd** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Trystan Lewis
    Cyfeilydd: Tudur Jones
    Gwobrau: 1af - £20.00, 2il - £16.00, 3ydd - £12.00.

11. **(38) Oedran Uwchradd: Monolog** hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud
    Beirniad: Anni Llŷn
    Gwobrau: 1af - £25.00, 2il - £20.00, 3ydd - £15.00

12. **(55) Côr/Parti Cân Werin Agored**: Dwy gân gyferbyniol.
    Beirniad: Arfon Williams ac Iwan Morgan
    Gwobrau: 1af - £100.00, 2il - £80.00, 3ydd - £60.00

13. **(10) Parti Deusain oed Uwchradd** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Trystan Lewis
    Gwobrau: 1af - £40.00, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00.

14. **(37) Grŵp Llefaru dan 19 oed** - hunan-ddewisiad
    Beirniad: Anni Llŷn
    Gwobrau: 1af - £25.00, 2il - £20.00, 3ydd - £15.00. *(Yr holl wobrau'n rhoddedig er cof am deulu Humphreys, Y Gribin, Cemmaes gan Tom a Dr Margaret Jones Plasgwyn)*

15. **(11) Côr Ieuenctid o dan 25 oed** (dros 16 mewn nifer)
    Unrhyw gyfuniad o leisiau i gyflwyno darn hunan-ddewisiad"
    Beirniad: Sioned Webb
    Gwobrau: 1af - £175.00 a Chwpan Sefydliad y Merched Corwen, 2il - £100.00, 3ydd - £75.00.

Trydydd Cyfarfod yr Eisteddfod

Dydd Sadwrn y 4ydd o Orffennaf – Neuadd y Plas
I ddechrau'n brydlon am 11 o'r gloch

1. **(61) Dawns Greadigol i grŵp Agored** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
   Gwobrau: 1af - £60.00, 2il - £50.00, 3ydd - £40.00

2. **(56) Dawns stepio unigol dan 12 oed** yn defnyddio arddull, patrymau, camau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu Gymreig eu naws.
   Beirniad: Bryn Davies
   Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00 (*Rhodd gan Cadi Glwys, Nant Hirwen.)*

3. **(63) Dawns Agored i bâr neu driawd** unrhyw arddull ag eithro dawnsio gwerin/stepio
   Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
   Gwobrau: 1af - £40.00 (*Rhodd Eleri Jones*), 2il - £30.00, 3ydd - £20.00

4. **(66) Dawns Grŵp Hip-Hop/stryd/disgo dan 12 oed**
   Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
   Gwobrau: 1af - £40.00, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00

5. **(58) Dawns stepio Agored** yn defnyddio arddull, patrymau, camau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu Gymreig eu naws.
   Beirniad: Bryn Davies
   Gwobrau: 1af - £60.*00 (Rhodd gan Rhian a Bryn Davies, o Hirwen)*
   2il - £50.00, 3ydd - £40.00

6. **(65) Dawns Unigol Agored** unrhyw arddull ag eithro dawnsio gwerin/stepio
   Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
   Gwobrau: 1af - £50.00, 2il - £40.00, 3ydd - £20.00

7. **(59) Dawns Werin i grŵp dan 12 oed** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Bryn Davies
   Gwobrau: 1af - £40.00, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00 *Rhodd gan Carys Evans (er cof am Emyr Cefn y Braich)*

8. **(67) Dawns Grŵp Hip-Hop/stryd/disgo Agored**
   Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
   Gwobrau: 1af - £60.00, 2il - £50.00, 3ydd - £40.00

9. **(57) Dawns stepio unigol Agored** yn defnyddio arddull, patrymau, camau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu Gymreig eu naws.
   Beirniad: Bryn Davies
   Gwobrau: 1af - £50.00 *Rhodd gan Aelwyd Sycharth*, 2il - £40.00, 3ydd - £30.00

10. **(64) Dawns Unigol dan 12 oed** unrhyw arddull ag eithrio dawnsio gwerin/stepio
    Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
    Gwobrau: 1af - £10.00, 2il - £8.00, 3ydd - £6.00

11. **(60) Dawns Werin i grŵp Agored** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Bryn Davies
    Gwobrau: 1af - £60.00, 2il - £50.00, 3ydd - £40.00

12. **(62) Dawns Aml-gyfrwng i grŵp Agored** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Elin Angharad a Bethan Smith-Davies
    Gwobrau: 1af - £60.00, 2il - £50.00, 3ydd - £40.00

Pedwerydd cyfarfod yr Eisteddfod

Dydd Sadwrn y 4ydd o Orffennaf – Y Tabernacl
I ddechrau'n brydlon am 14.00 o'r gloch

1. **(36) Llefaru Unigol dan 19 oedd** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Anni Llŷn a Hanna Llŷn
   Gwobrau: 1af - £25.00, 2il - £20.00, 3ydd - £15.00.

2. **(48) Unawd Cerdd Dant Agored (dros 19 oed)** Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Arfon Williams
   Telynor: Alecs Peate
   Gwobrau: 1af - £40.00 (*Er cof am Elizabeth Lloyd Jones, Tynrhos, Glantwymyn),* 2il - £30.00, 3ydd - £20.00

3. **(27) Unawd Offerynnol agored** - Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud i'w pherfformio
   Beirniad: Sioned Webb
   Gwobrau: 1af - £40.00 a Thlws Agored Wynstay*, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00.

4. **(12) Canu Emyn o dan 30 oed** Unrhyw emyn allan o 'Caneuon Ffydd'
   Beirniad: Iwan Parry
   Cyfeilydd: Tudur Jones
   Gwobrau: 1af - £30.00, 2il - £20.00, 3ydd - £10.00. (*Rhodd Merched y Wawr Bro Ddyfi)*

Seremoni'r Cadeirio

Cynhelir y seremoni am 3 o'r gloch
Cyflwynir y gadair eleni am gerdd Gaeth neu rydd ar y testun 'Llwybrau'
Gwnaed y gadair gan Aled Lewis, a noddwyd hi gan **Undeb Amaethwyr Cymru, Sir Drefaldwyn.**
Cyflwynir gwobr o £150.
Beirniad y gystadleuaeth yw Carwyn Eckley.

Y Ddefod:
Cenir Gweddi'r Orsedd gan un o'r rhai urddwyd o'r newydd
Cenir Cân y Cadeirio gan Aled Wyn
Cyfarchion Barddol: I'w dewis o blith y rhai urddwyd o'r newydd
Cyrchir y Llenor i'r llwyfan gan ddau o'r rhai urddwyd o'r newydd

Pabell Lên

Cynhelir pabell lên i drafod y cystadlaethau rhyddiaith yn syth ar ôl y ddefod yn stafell werdd y tabernacl.

5. **(54) Grŵp (4 i 20 mewn nifer) i ganu unrhyw garol plygain**
   Beirniad: Iwan Morgan
   Gwobrau: 1af - £50.00 (*rhoddedig gan Geunor Roberts*), 2il - £40.00, 3ydd - £30.00

6. **(13) Unawd allan o Sioe Gerdd o dan 19 oed** - Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Trystan Lewis
   Cyfeilydd: Huw Davies
   Gwobrau: 1af - £25.00, 2il - £20.00, 3ydd - £10.00.

7. **(49) Deuawd, triawd neu bedwarawd Cerdd Dant Agored**
   Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Arfon Williams
   Telynor: Llio James
   Gwobrau: 1af - £60.00 *(rhoddedig gan Menna Blake*), 2il - £40.00, 3ydd - £30.00

8. **(41) Monolog agored** - Cyflwyno dau ddarn gwrthgyferbyniol heb fod yn hwy na 6 munud.
   Beirniad: Anni Llŷn a Hanna Llŷn
   Gwobrau: 1af - £60.00 (*Rhodd gan Beryl Vaughan*), 2il - £50.00, 3ydd - £40.00.

9. **(53) Unawd Alaw Werin Agored** (dros 19 oed)- Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Iwan Morgan
   Gwobrau: 1af - £50.00, 2il - £40.00, 3ydd - £30.00.

Cyflwyno Tlws y Dysgwr

Y wobr yn rhoddedig gan Rhiain Bebb a Howard Potter

Pumed cyfarfod yr Eisteddfod

Dydd Sadwrn y 4ydd o Orffennaf – Y Tabernacl
I ddechrau'n brydlon am 6.00 o'r gloch

1. **(103) Sgwrsio (Dysgwyr):** (hyd at 5 munud) Sgwrs ar ôl y dosbarth
   Beirniad: Haf ap Robert
   Gwobrau: 1af - £30.00, 2il - £20.00, 3ydd - £10.00.

Cyflwyno Tlysau'r Adran Celf a Chrefft

2. **(14) Unawd allan o Sioe Gerdd dros 19 oed** - Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Sioned Webb
   Cyfeilydd: Huw Davies
   Gwobrau: 1af - £40.00 (*gan Eleri ar teulu, Talerddig*), 2il - £30.00, 3ydd - £20.00.

3. **(18) Canu emyn dros 60 oed** - Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Trystan Lewis
   Cyfeilydd: Tudur Jones
   Gwobrau: 1af - £40.00 a Chwpan Coffa Rhys Davies (*Y wobr ariannol yn rhoddedig er cof am Brian Humphreys, Brynaman gan Eleri, Ifan, Heledd a Llinos, Talerddig),* 2il - £30.00, 3ydd - £20.00.

4. **(19) Deuawd Agored** – Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Iwan Parry
   Cyfeilydd: Huw Davies
   Gwobrau: 1af - £60.00, 2il - £40.00, 3ydd - £30.00.

5. **(101) Llefaru Unigol i ddysgwyr:** 'Darllen y Map yn lawn', Twm Morys
   Beirniad: Haf ap Robert
   Gwobrau: 1af - £40.00, 2il - £30.00, 3ydd - £20.00.

6. **(16) Unawd 19-25 oed** - Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Sioned Webb
   Cyfeilydd: Tudur Jones
   Gwobrau: 1af - £100.00, 2il - £80.00, 3ydd - £60.00.

Anerchiad Llywydd Dydd Sadwrn

Olwen Rhys, Pwllheli

7. **(29) Ensemble Offerynnol agored** – (rhwng 2-6 mewn nifer) Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud i'w pherfformio
   Beirniad: Trystan Lewis
   Gwobrau: 1af - £60.00, 2il - £50.00, 3ydd - £40.00.

8. **(23) Côr Agored (dros 20 mewn nifer)** – i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol
   Beirniad: Trystan Lewis a Sioned Webb
   Gwobrau: 1af - £300.00, 2il - £250.00, 3ydd - £150.00.

9. **(21) Unawd Agored** - Hunan-ddewisiad
   Beirniad: Trystan Lewis
   Cyfeilydd: Eirian Owen
   Gwobrau: 1af - £175.00 a Chwpan Cyngor Tref Croesoswallt*, 2il - £100.00, 3ydd - £75.00.

Cyflwyno Tlws y Cyfansoddwr

10. **(39) Prif Gystadleuaeth Lefaru:** Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Anni Llŷn a Hanna Llŷn
    Gwobrau: 1af - £120.00, 2il - £80.00, 3ydd - £50.00.

11. **(20) Unawd Gymraeg** - Hunan-ddewisiad
    Beirniad: Sioned Webb
    Cyfeilydd: Eirian Owen
    Gwobrau: 1af - £100.00 (*Rhodd Alun a Iola*) a Chwpan Coffa Rhys Davies*, 2il - £80.00, 3ydd - £60.00.

Cloi'r eisteddfod

Yr anthem

***Tlysau a Chwpanau'r Eisteddfod:**

Noder fod y tlysau a'r cwpanau oll i'w cadw am flwyddyn, ag eithrio Tlws yr Ifanc, y Dysgwr, y Gadair a 'r Goron.

Y Gadair

Gwneuthurwr: Aled Lewis

Noddwyr: Undeb Amaethwyr Cymru, Sir Drefaldwyn



Wedi'i chreu o bren derw o Gymru, gobeithia'r gwneuthurwr y bydd dyluniad cyfoes y gadair hon yn llwyfan yn ei hun I'r bardd buddugol. Ceir cyffyrddiadau cynnil o Nod Cyfrin Eisteddfodol, y Triban, yn ei siâp a'i ffurf. Diolch i'r noddwyr, Undeb Amaethwyr Cymru am eu cefnogaeth.

Y Goron

Gwneuthurwraig: Mari Eluned

Noddwyr: NFU Cymru, Sir Drefaldwyn

Gwaith y grefftwraig leol, Mari Eluned yw'r Goron arbennig hon. Ei bwriad oedd efelychu'r Afon Ddyfi yn troelli drwy fryniau'r ardal gan ddefnyddio ffurf y cwlwm Celtaidd. Ceir manylion wedi'u creu o ddeunyddiau naturiol megis bwtwm wedi'i gerfio o dderw o'r fferm, a charreg bach arian o'r Afon Ddyfi ar ei ben. Diolch I'r noddwyr, NFU CYMRU am eu cefnogaeth.

Gwybodaeth am gystadlaethau Cartref yr Eisteddfod

CYFANSODDI

30. Cyfansoddi Agored

Cyfansoddi Tôn Newydd i'r geiriau "Nid wy'n gofyn bywyd moethus"
Gwobr: £100

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân.
Gofyn 'rwyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.

Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos;
Dim ond calon lân all ganu,
Canu'r dydd a chanu'r nos.

Pe dymunwn olud bydol
Chwim adenydd iddo sydd;
Golud calon lân, rinweddol
Yn dwyn bythol elw fydd.

Hwyr y bore fy nymuniad
Gwyd i'r nef ar adain cain cân
Ar i Dduw; er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi imi galon lân.

Gwyrosydd, 1847-1920

ADRAN LLÊN

BARDDONIAETH AGORED

68. Cerdd y Gadair: Cerdd Gaeth neu rydd - Llwybrau
Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150.

69. Cywydd: Hiraeth
Gwobr: £40

70. Englyn: Arwr
Gwobr £40 *(gan Teulu Rhos Helyg - er cof am Dafydd Wyn ag Eurwen)*

71. Englyn Ysgafn: Paradwys
Gwobr £40

72. Telyneg: Amser
Gwobr £30 *(gan Teulu Rhos Helyg - er cof am Dafydd Wyn ag Eurwen)*

73. Soned: Adre
Gwobr £30 *(gan Teulu Rhos Helyg - er cof am Dafydd Wyn ag Eurwen)*

74. Limrig: Y bont newydd
Gwobr £30

75. Tri thriban: Glyndwr
Gwobr £30

76. Parodi: Unrhyw gân o un o gynyrchiadau Cwmni Theatr Maldwyn
Gwobr £30

RHYDDIAITH AGORED

77. Y Goron: Casgliad o ddarnau rhyddiaith ar y thema - Gwawrio
Gwobr: Coron a £150 (*Rhodd Edwin ac Esme Hughes, Pennant, Llanbrynmair)*

78. Cyfrol o ryddiaith greadigol neu ffeithiol yn gysylltiedig â Phowys
(ardal Powys Fadog neu Bowys Wenwynwyn.)
Gwobr: £250 (dan nawdd Gwobr Llanbrynmair)

79. Stori Fer: Paradwys
Gwobr £30

80. Cyfraniad i Bapur Bro ar bwnc o ddiddordeb lleol.
Gwobr £30

81. Portread o berson
Gwobr £30

ADRAN IEUENCTID - RHYDDIAITH A BARDDONIAETH

dan 25 oed

82. Tlws Ieuenctid: Casgliad o 3 darn o waith gwreiddiol.
Gwobr - Tlws Ieuenctid a £75 *(y wobr a'r rhodd ariannol yn rhoddedig gan Huw ac Eirian Jones)*

Barddoniaeth

83. Blwyddyn 10 i 13: Taith
Gwobr £30 i'w rannu.

84. Blwyddyn 7-9: Cynefin neu Perthyn
Gwobr £30 i'w rannu.

85. Blwyddyn 5-6: Teulu
Gwobr: £20 i'w rannu.

86. Blwyddyn 4 ac iau: Y gêm
Gwobr £20 i'w rannu.

Rhyddiaith:

87. Blwyddyn 10 -13: Gwaith ffuglen neu ffeithiol (Agored)
Gwobr £30 i'w rannu.

88. Blwyddyn 7-9: Fy ardal
Gwobr £30 i'w rannu.

89. Blwyddyn 5-6: Fy hoff le
Gwobr £20 i'w rannu.

90. Blwyddyn 4 ac iau: Fy hoff anifail
Gwobr £20 i'w rannu.

ADRAN CYSTADLAETHAU I DDYSGWYR

RHYDDIAITH

91. Cystadleuaeth Tlws y Dysgwr: *(Agored i ddysgwyr 16 oed a throsodd.) Gofynnir am ddau ddarn o waith gwreiddiol (e.e. llythyr, stori, ysgrif, cerdd, blog, ymson, deialog, dyddiadur, adolygiad o lyfr, rhaglen deledu neu ffilm)*
Gwobr: Tlws a £75 *rhoddedig gan Rhiain Bebb a Howard Potter*
Thema: Hunan-ddewisiad

92. Lefel Mynediad: (100 o eiriau)
Gwobrau: £20, £15, £10
Sgwrs mewn siop sglodion

93. Lefel Sylfaen: (150 o eiriau)
Gwobrau: £20, £15, £10 (*Y cwbl yn rhodd gan Mary a John Price)*
Y Gwyliau Perffaith

94. Lefel Canolradd (200 o eiriau)
Gwobrau: £20, £15, £10 *(Y cwbl yn rhodd gan Mary a John Price)*
Sgwrs rhwng dau ddieithryn ar drên

95. Lefel Agored: Gwaith grŵp neu unigol:
Gwobrau: £30, £25, £20
Taflen wybodaeth – 'Dewch i fy ardal'

RHYDDIAITH IEUENCTID (DYSGWYR)

96. Blwyddyn 7 - 9 (100 o eiriau)
Gwobrau: £15, £12, £10
Neges i ddiolch am anrheg

97. Blwyddyn 10 - 13
Gwobrau: £25, £20, £15
Neges bwrw bol/ neges i gwyno

ADRAN CELF A CHREFFT

Cynhelir arddangosfa o waith Celf a Chrefft yr eisteddfod yn Hwb Cymunedol y Taj Mahal

Dydd Gwener: 1 – 4

Dydd Sadwrn: 9 - 3

Gosodir thema “O'r mynydd i'r môr” I'r holl gystadlaethau lle nodir “o dan y themau”

CELF

Gwaith mewn unrhyw gyfrwng e.e arlunio, argraffu, cyfrifiadur, brodwaith, modelu ayyb (o dan y themâu) Dylai’r gwaith 2D gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio.

104. Agored

Gwobrau: 1af £40 2il £30 3ydd £20

105. O dan 19 oed

Gwobrau: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

106. Oedran cynradd:

Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

FFOTOGRAFFIAETH

(o dan y themâu) gellir cyflwyno un ffotograff unigol, neu grŵp o ffotograffau (dim mwy na 4) Dylai’r gwaith gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio

107. Agored

Gwobrau: 1af £40 2il £30 3ydd £20

108. O dan 19 oed
Gwobrau: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

109. Oedran cynradd - blynyddoedd 3, 4, 5, 6**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

110. Oedran cynradd - - Blynyddoedd D,1 a 2**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

111. Gwaith digidol Instagram. Oedran 13+

CELFYDDYD Y CARTREF

GOSOD BLODAU

(o dan y themâu) Cwpan David Peate i'w ddal am flwyddyn I'r gwaith gorau yn yr adran Gosod Blodau.

113. Agored
Gwobrau: 1af £40 2il £30 3ydd £20

114. O dan 19 oed
Gwobrau: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

115. Oedran cynradd - blynyddoedd 3, 4, 5, 6**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

116. Oedran cynradd - - Blynyddoedd D,1 a 2**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

COGINIO

Te Cymreig wedi ei gyflwyno ar hambwrdd (yr Hambwrdd i fesur dim mwy na 60 x 40cm). Tlws am y gwaith gorau yn yr adran coginio

117. Agored
Gwobrau: 1af £40 2il £30 3ydd £20

118. O dan 19 oed
Gwobrau: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

119. Oedran cynradd - blynyddoedd 3, 4, 5, 6**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

120. Oedran cynradd - - Blynyddoedd D,1 a 2**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

CREFFT

Unrhyw eitem wedi greu mewn unrhyw cyfrwng / cyfuniad o gyfryngau e.e. pren, plastig, metel, gwydr, ailgylchu gwastraff a.y.y.b.

121. Agored
Gwobrau: 1af £40 2il £30 3ydd £20

122. O dan 19 oed
Gwobrau: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10 (*Y cwbl yn rhodd gan Mary a John Price)*

123. Oedran cynradd - blynyddoedd 3, 4, 5, 6**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

124. Oedran cynradd - - Blynyddoedd D,1 a 2**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

TECSTILIAU

Unrhyw eitem o waith llaw tecstiliau wedi greu mewn unrhyw cyfrwng / cyfuniad o gyfryngau e.e. grosio, gwau a.y.y.b.

125. Agored
Gwobrau: 1af £40 2il £30 3ydd £20

126. O dan 19 oed
Gwobrau: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

127. Oedran cynradd - blynyddoedd 3, 4, 5, 6**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

128. Oedran cynradd - - Blynyddoedd D,1 a 2**:**
Gwobrau: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

Eisteddfod
Powys
Bro Ddyfi
2026